Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Pentrefoelas

**Pentrefoelas**
**Betws Y Coed**
**Conwy**
**LL24 0LE**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Pentrefoelas

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Pentrefoelas |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 42 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 29 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 5 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 8.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 7.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 86.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2018 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 04/05/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 06/11/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:

[Fy Ysgol Leol (gov.wales)](https://gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Pentrefoelas yn gymuned glos sy'n dathlu Cymreictod, cwrteisi a pharch yn arbennig o dda. Mae'r pennaeth yn darparu arweiniad doeth sy'n gwerthfawrogi ymdrechion pawb sy'n cyfrannu at addysg y disgyblion. Mae'r holl staff yn ymrwymo i sicrhau ansawdd uchel o ofal a lles disgyblion ar draws yr ysgol, mewn awyrgylch dysgu cartrefol a chefnogol. Mae hyn yn dylanwadu'n gryf ar agweddau'r disgyblion at ei gilydd, ac at bobl eraill o fewn a thu hwnt i'r ysgol.

Mae balchder disgyblion at y Gymraeg yn nodwedd gref ac maent yn defnyddio'r iaith yn gwbl naturiol y tu fewn a thu allan i'r dosbarth. Mae athrawon a'r cymorthyddion yn modelu iaith yn hynod fedrus ac yn cydweithio'n llwyddiannus â'i gilydd i gynllunio ystod o brofiadau dysgu a chwarae amrywiol a phwrpasol i ddisgyblion. O ganlyniad, mae balchder disgyblion at eu dysgu, eu pentref a'u hardal leol yn gryfder.

Mae staff yn darparu cwricwlwm sy'n galluogi disgyblion i gaffael y wybodaeth a'r medrau angenrheidiol i gefnogi eu gwaith, a'u helpu i'w cymhwyso mewn gweithgareddau perthnasol ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd ac ysgrifennu estynedig ar draws y meysydd dysgu yn anghyson. At ei gilydd, nid yw athrawon yn darparu gweithgareddau dysgu sy'n cefnogi disgyblion i gyflawni hyd orau eu gallu bob tro. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi medrau dysgu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn fwriadus. O ganlyniad, maent yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu.

Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymryd rhan mewn perfformiadau a digwyddiadau i feithrin eu hunanhyder a'u gallu mynegiannol. Er enghraifft, maent yn perfformio'n frwdfrydig mewn sioeau a chyngherddau yn y gymuned yn ogystal â mewn eisteddfodau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yr Urdd.

Mae trefniadau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd yr ysgol yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar les a chynnydd disgyblion. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cefnogi'r pennaeth a'r staff yn dda. Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn uchel iawn. Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth y staff a'r llywodraethwyr, yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelu yn effeithiol.

## Argymhellion

A1 Gwella medrau ysgrifennu disgyblion

A2 Darparu gweithgareddau sy'n herio pob disgybl i gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A3 Sicrhau bod adborth gan staff yn adnabod y camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn effeithiol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn cychwyn yr ysgol gyda medrau tua'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygiad. Mae gan y rhan fwyaf fedrau llafar Cymraeg cadarn yn cyrraedd yr ysgol. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Mae'r disgyblion sydd ag ADY yn gwneud cynnydd cryf yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

O oedran ifanc, mae bron bob disgybl yn datblygu geirfa a phatrymau iaith addas, er enghraifft wrth drafod teimladau cymeriadau mewn stori. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer yn ehangu eu medrau siarad yn briodol i sgwrsio am eu profiadau yn ehangach gan ddefnyddio tafodiaith leol yn naturiol. Er enghraifft, maent yn trafod yr hyn sy'n digwydd i'r amgylchedd yn stori Sbwriel Sbango yn fedrus. Ar frig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau cyfathrebu'n effeithiol gan gefnogi ambell sylw â rheswm pwrpasol wrth fynegi barn.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau cychwynnol yn hyderus ac yn dangos balchder wrth ddatblygu eu medrau darllen. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau gwrando ar straeon, ac yn darllen llyfrau syml i'w ffrindiau ac oedolion yn aeddfed. Mae mwyafrif y disgyblion hynaf yn darllen yn rhugl mewn cyd-destunau amrywiol yn y ddwy iaith. Maent yn dechrau defnyddio goslef i ddangos eu dealltwriaeth o'r cynnwys. Ar frig yr ysgol, mae llawer yn datblygu eu medrau darllen uwch yn fedrus, er enghraifft wrth gasglu a chyflwyno gwybodaeth berthnasol am loÿnnod byw prin.

Ar fynediad i'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gafael mewn offer marcio yn hyderus i greu marciau cynnar. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer yn dechrau ysgrifennu'n gynyddol annibynnol, gan ddangos dealltwriaeth gadarn o sillafu ac atalnodi. Er enghraifft, maent yn defnyddio berfau gorchmynnol wrth ysgrifennu cyfarwyddiadau ar sut i blannu hadau yn llwyddiannus. Ar draws yr ysgol, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu gallu i ysgrifennu yn briodol, yn enwedig mewn ffurfiau ffuglen. Maent yn addasu'r arddull a strwythur yn briodol wrth ysgrifennu stori ddychmygol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif y disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau ysgrifennu estynedig yn ddigon effeithiol.

O oedran cynnar, mae medrau mathemategol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n bwrpasol o fewn eu profiadau. Maent yn adnabod siapiau 2D yn hyderus ac yn defnyddio eu medrau rhif yn effeithiol wrth ddatrys problemau mathemategol syml, er enghraifft. Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf afael da ar rifau 2 ddigid, mesur ansafonol a thrafod data syml. Maent yn cymhwyso'u medrau rhifedd

yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ddadansoddi pictogram am dai a chartrefi. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio arian yn ymarferol yn siop elusen y dosbarth. Ar frig yr ysgol, mae'r mwyafrif yn arddangos dealltwriaeth dda o unedau mesur, er enghraifft wrth gymhwyso eu medrau mesur wrth ddylunio ac adeiladu cafnau blodau. Fodd bynnag, ar frig yr ysgol, nid yw lleiafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd a datrys problemau yn ddigon cadarn.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Mae eu mwynhad a'u balchder at y maes yn amlwg, er enghraifft wrth berfformio cân wreiddiol am hanes ffordd yr A5. Ar frig yr ysgol, mae medrau cerddorol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cael eu hymestyn yn fedrus i gyfansoddi caneuon sy'n cynnwys cân ailgylchu a cherddoriaeth greadigol ar gyfer y pili pala. Maent yn efelychu gwaith artistiaid fel Rhiannon Roberts a Catrin Williams, gan ddatblygu eu medrau i amrywio lliw a gwead yn gelfydd. Caiff y gwaith celf ei arddangos yn chwaethus o fewn yr amgylchedd dysgu ddeniadol.

Mae medrau digidol llawer o ddisgyblion yn datblygu'n bwrpasol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau'n dda wrth ddefnyddio llechen gyfrifiadurol ac yn defnyddio apiau amrywiol sy'n hybu eu medrau llafar. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, maent yn datblygu eu medrau'n bwrpasol, er enghraifft wrth ddefnyddio meddalwedd rheoli teclyn rhaglenadwy i symud o gwmpas map. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae medrau llawer yn adeiladu'n gyson ar ddysgu blaenorol wrth ddefnyddio ystod gynyddol o feddalwedd a chyfarpar digidol. Er enghraifft, maent yn defnyddio ap i reoli anifail wedi'i greu o lego yn llwyddiannus.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn o ganlyniad i amrywiaeth dda o brofiadau a gweithgareddau. Mae'r disgyblion ieuengaf yn ymroi'n frwdfrydig i weithgareddau corfforol yn yr ardal allanol, gan gynnwys datblygu eu medrau cydbwyso mewn sesiynau beicio. Mae'r disgyblion hynaf yn datblygu ystod o fedrau corfforol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau sy'n cynnwys sesiynau pêl-droed, sesiynau nofio a chyfleoedd i fynychu clybiau chwaraeon ar ôl ysgol.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn teimlo'n hapus a diogel o dan ofal holl staff yr ysgol. Maent yn teimlo eu bod nhw'n cael eu parchu a'u trin â thegwch sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at ethos teuluol, cartrefol a chynhwysol yr ysgol. Mae disgyblion yn gwybod at bwy i droi am gefnogaeth os oes rhywbeth yn eu pryderu ac maent yn hyderus y bydd staff yn gwrando arnynt. Maent yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn siarad yn frwdfrydig am eu dysgu a'r holl brofiadau a gynigir iddynt.

Yn ystod sesiynau dysgu ac amseroedd egwyl a chinio, mae ymddygiad bron bob disgybl yn dda iawn ac maent yn dangos parch a chwrteisi at ei gilydd. Maent yn rhyngweithio'n naturiol a charedig â'u ffrindiau ac ymwelwyr sy'n meithrin yr ymdeimlad eu bod fel un teulu mawr yn yr ysgol.

Mae'r disgyblion ieuengaf yn deall trefniadau'r dosbarth yn fuan ac yn dysgu chwarae'n hapus ochr yn ochr â'u ffrindiau. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn siarad yn aeddfed â'i gilydd mewn gweithgareddau pâr, ac yn canolbwyntio'n arbennig o dda ar eu dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion yn datblygu eu medrau

llafar a mathemateg yn fedrus wrth ddatrys pos trefnu a chyfrif poteli llaeth. Mae'r rhan fwyaf yn rhyngweithio'n hapus a naturiol â'i gilydd yn yr ardaloedd pwrpasol. Maent yn elwa o'r defnydd o adnoddau effeithiol sydd ar gael iddynt i ddatblygu eu medrau a chwarae mewn gwahanol gyd-destunau, er enghraifft wrth ddysgu yn yr ardal adeiladu.

Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn briodol i weithgareddau yn y dosbarth ac mewn sesiynau yn yr awyr agored. Maent yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn ymateb yn dda i gefnogaeth lafar gan staff. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos dyfalbarhad wrth gwblhau tasgau. Maent yn dangos agweddau sensitif a charedig at ddisgyblion sy'n derbyn cefnogaeth ychwanegol.

Mae bron bob disgybl yn ystyried a gwerthfawrogi teimladau eu ffrindiau wrth ddysgu ac yn ystod amser cylch, er enghraifft wrth gefnogi eu ffrindiau os ydynt yn drist. Mae'r disgyblion hynaf yn ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol yn fedrus sy'n cyfrannu'n gadarn at hyrwyddo eu hyder yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion hynaf yn cefnogi'r disgyblion ieuengaf yn fwriadus yn eu dysgu a'u chwarae mewn modd cynhaliol.

Mae pob un o'r disgyblion hynaf yn cael cyfle i fod yn aelod o gynghorau'r ysgol. Trwy'r cyfleoedd addas hyn, darperir cyfleoedd priodol i'r disgyblion leisio barn am agweddau o fywyd yr ysgol yn anffurfiol gyda'r staff.

Mae bron bob disgybl yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn ystod eu gwersi ac mewn sesiynau allgyrsiol, gan gynnwys y clwb pêl-droed a'r clwb garddio. Maent yn ymwybodol bod cynnal corff iach yn bwysig i gynnal eu lles. Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau fel diwrnod iechyd meddwl plant a gweithdy 'Paid cyffwrdd, dweud' yn hyrwyddo'r diwylliant hwn yn llwyddiannus. Maent yn esbonio manteision bwyta bwydydd iach a pham na ddylent fwyta gormod o fraster a siwgr yn effeithiol.

Mae gan lawer o ddisgyblion ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cydraddoldeb a phwysigrwydd parchu pobl eraill. Mae ganddynt ddealltwriaeth o'u hawliau sy'n cynnwys ymwybyddiaeth o'r hawl i fod yn ddiogel. Mae'r rhan fwyaf yn deall sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar-lein, er enghraifft trwy eu gwaith gyda'r heddlu a'r ymweliad i ganolfan Pentref Peryglon. Mae'r disgyblion hynaf yn trafod eu hawliau eu hunain a hawliau pobl eraill yn ystyrlon, er enghraifft wrth ddysgu am hawliau merched.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu pwrpasol ar gyfer y disgyblion. Mae'r cwricwlwm yn dechrau darparu profiadau dysgu eang a chyfoethog sy'n datblygu diddordebau a medrau disgyblion yn effeithiol. Mae'r pennaeth a'r staff wedi gweithio'n ddiwyd gyda disgyblion, rhieni a llywodraethwyr i ffurfio gweledigaeth a chynllunio'r cwricwlwm sy'n seiliedig ar y gymuned leol a'r byd yn ehangach. Er enghraifft, mae gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion yn cael ei datblygu'n gyson mewn gweithgareddau diddrorol, fel wrth ddysgu am hanes Thomas Telford ac arwyddocâd ffordd yr A5 i bobl yr ardal dros y canrifoedd. Mae'r ethos o Gymreictod yn nodwedd hynod amlwg sy'n plethu trwy holl fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae staff yn cydweithio'n ddiwyd i wreiddio'r cwricwlwm yn effeithiol trwy sesiynau 'Tyfu a ffynnu' i gynllunio gweithgareddau posibl a mapio'r ddarpariaeth dros amser. Mae'r cwricwlwm yn galluogi disgyblion i gaffael y wybodaeth a'r medrau angenrheidiol mewn gweithgareddau perthnasol i gefnogi eu dysgu ym meysydd y cwricwlwm, er enghraifft llafar, darllen a digidol. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu medrau mathemateg yn briodol. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd bwriadus i ddisgyblion gymhwyso a datblygu eu medrau rhifedd ac ysgrifennu yn llawn ar draws y meysydd.

Mae'r disgyblion ieuengaf yn elwa o gyfleoedd bwriadus i arbrofi â gwneud marcio yn annibynnol. Erbyn Blwyddyn 2, mae dysgwyr yn cael cyfleoedd cyson i ysgrifennu mewn ystod addas o ffurfiau. Ar adegau, mae athrawon yn darparu taflenni gwaith i ddisgyblion gyflawni eu gwaith sy'n cyfyngu ar ansawdd a safon eu medrau ysgrifennu. Ar frig yr ysgol, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd achlysurol i ddisgyblion ysgrifennu'n greadigol. Er hyn, nid yw'r cyfleoedd hyn yn cefnogi disgyblion i ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau yn ddigon cyson. Ar adegau, nid yw athrawon yn darparu gweithgareddau llythrennedd a rhifedd sy'n herio disgyblion i gyflawni hyd orau eu gallu bob tro.

Mae gan athrawon a chymorthyddion berthynas weithio gynhyrchiol â'r disgyblion. Maent yn annog parch a chwrteisi sydd yn cyfrannu'n dda at wireddu gweledigaeth ac ethos yr ysgol. Mae staff yn modelu'r Gymraeg yn raenus sy'n cael effaith gadarn ar fedrau llafar disgyblion. Mae cymorthyddion yn cefnogi dysgu a phrofiadau chwarae'r disgyblion yn hynod lwyddiannus, gan gefnogi unigolion a grwpiau penodol o ddysgwyr yn fedrus.

Mae staff yn defnyddio gwybodaeth am gynnydd disgyblion ar ddechrau'r flwyddyn yn dda er mwyn cynllunio camau dysgu nesaf y disgyblion. Mae athrawon a chymorthyddion yn asesu cynnydd a datblygiad unigolion, gan gynnwys grwpiau o ddisgyblion yn fedrus. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Mae athrawon yn dechrau cyflwyno egwyddorion a phrofiadau ysgogol i'r disgyblion. Maent yn rhannu ac esbonio nodau gweithgareddau yn dda, ac yn dechrau cynnwys disgyblion yn y broses o lunio'r meini prawf llwyddiant. Mae adborth llafar gan staff yn caniatáu i ddisgyblion wybod pa mor dda maent yn cyflawni a'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt gyda thasgau penodol. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith, ac i adnabod a gweithredu ar beth a sut i symud eu dysgu ymlaen.

Mae'r staff yn gwahodd ymwelwyr amrywiol i'r ysgol i gyfoethogi a datblygu dealltwriaeth disgyblion o feysydd dysgu penodol. Er enghraifft, maent yn trefnu gweithdai gydag arlunwyr Cymreig a gweithgareddau drama gyda Manon Prysor i ddatblygu medrau creadigol disgyblion. Mae staff yn manteisio ar arbenigedd pobl leol i sbarduno'r dysgu yn dda, sy'n cynnwys cydweithio'n agos â'r gymuned i gynllunio, adeiladu, creu a chynnal gardd arbennig yr ysgol.

Mae adroddiadau blynyddol y disgyblion ar gyfer rhieni yn adrodd yn glir ar gynnydd a chyflawniadau disgyblion, yn ogystal â'u hagweddau at ddysgu.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a hapus sy'n cefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol pob un o'r disgyblion yn hynod effeithiol. Mae staff yn gosod pwyslais cryf ar hybu ymddygiad cadarnhaol a meithrin parch disgyblion at ei gilydd yn dda. Caiff hyn ei amlygu yn ymddygiad ardderchog a chwrteisi naturiol bron bob disgybl.

Mae gan y pennaeth a'r holl staff adnabyddiaeth drylwyr o bob plentyn. Maent yn olrhain cynnydd yr holl ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion ADY, yn effeithiol. Mae gweithdrefnau defnyddiol wedi eu sefydlu gyda phob dosbarth i olrhain cynnydd yn erbyn asesiadau ac arsylwadau addas. Mae hyn yn cefnogi staff i sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson yn unol â'u mannau cychwyn unigol a'u targedau dysgu.

Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (CADY) a'r cymorthyddion sy'n gyfrifol am raglenni cymorth yn brofiadol ac yn frwdfrydig dros eu cyfrifoldebau. Maent wedi sefydlu gweithdrefnau pwrpasol sy'n sicrhau adnabyddiaeth dda o bob disgybl sydd ar y gofrestr ADY a'r rhai hynny sy'n destun pryder. Er enghraifft, maent yn adnabod a chefnogi disgyblion gydag anghenion lleferydd o oedran cynnar. Mae'r ysgol wedi cymryd camau cadarn mewn cydweithrediad â'r awdurdod lleol i weithredu'r ddeddf ADY newydd. Mae gan staff gyswllt cynhyrchiol ag ystod eang o asiantaethau allanol ar gyfer cefnogi'r ddarpariaeth ADY. Mae'r rhain yn cynnwys seicolegwyr addysg ac aelodau tîm iaith a lleferydd yr awdurdod, sy'n rhan allweddol o ddarparu cefnogaeth addas ar gyfer disgyblion penodol.

Mae staff yn darparu sesiynau effeithiol i ddiwallu anghenion lles disgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu iechyd a ffitrwydd yn boblogaidd ymhlith y disgyblion ac yn cael effaith gyson ar eu lles a'u datblygiad addysgol, er enghraifft wrth i ddisgyblion lunio posteri sy'n hyrwyddo'r pum cam i les sy'n eu cefnogi i gadw'n iach. Mae'r pwyslais ar ofalu am les corfforol, meddyliol ac emosiynol yn flaenoriaeth mewn gwersi. Mae llawer o ddisgyblion yn trafod yr agweddau hyn yn hyderus, gan gynnwys rhannu eu teimladau a'u gofidiau gydag eraill.

Mae diwylliant yr ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol, ac yn eu cefnogi i ddangos empathi at eraill. Er enghraifft, maent yn cynnal gwasanaeth diolchgarwch gyda'r gymuned i ddathlu'r amgylchedd naturiol a phwysleisio sut i ofalu am y byd. Darperir sesiynau cydaddoli pwrpasol a chyfle i'r disgyblion fyfyrio ar werthoedd a gofalu am ei gilydd. Mae cyfleodd achlysurol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd cadarn ac archwilio credoau yn fuddiol, er enghraifft wrth ddysgu am bum piler Islam a chyfansoddi gweddïau amrywiol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o'u hunaniaeth, treftadaeth a'r diwylliant Cymreig yn hynod effeithiol. Er enghraifft, mae staff yn cyfoethogi dysgu'r disgyblion trwy brofiadau dysgu am leoliadau arwyddocaol lleol fel Pontcysyllte. Trwy hyn, mae disgyblion yn deall arwyddocâd a phwysigrwydd eu hardal leol wrth ei chymharu â'r byd ehangach. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymryd rhan mewn perfformiadau a digwyddiadau i feithrin eu hunanhyder a'u gallu mynegiannol. Maent yn cynnwys cymryd rhan mewn sioeau a chyngherddau yn y

gymuned ac mewn eisteddfodau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yr Urdd. Mae’r cyswllt clos â’r gymuned yn elfen gref o waith yr ysgol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn i fonitro prydlondeb a phresenoldeb disgyblion. Maent yn hyrwyddo pwysigrwydd presenoldeb da ac yn cydweithio’n agos â theuluoedd a’r swyddog lles yn ôl yr angen. O ganlyniad, mae cyfradd presenoldeb yr ysgol yn eithriadol o uchel. Mae’r pennaeth a’r holl staff yn deall eu cyfrifoldebau wrth ddiogelu disgyblion ac mae’r diwylliant o ofalu am y disgyblion yn gyson. Mae’r trefniadau yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae gan y pennaeth a’r holl staff weledigaeth glir sy’n seiliedig ar ethos gofalgar a chefnogol lle mae llawer o’r disgyblion yn gwneud cynnydd ac yn aelodau gwerthfawr o’r gymdeithas. Maent yn gwireddu arwyddair yr ysgol, sef ‘Tyfu a ffynnu gyda’n gilydd’ yn llwyddiannus, ac yn meithrin gwerthoedd sy’n ysgogi disgyblion i fod yn ddysgwyr hyderus, uchelgeisiol sy’n ymfalchïo yn eu cymuned a’u diwylliant.

Mae’r pennaeth yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer ei hun, staff a’r disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu’n gadarn at ddatblygu tîm effeithiol a chefnogol o athrawon a chymorthyddion, ac i hyrwyddo lles staff. Maent yn arddel gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol sy’n cyfrannu’n gadarn at wella’r ysgol a sicrhau bod cydweithio effeithiol yn rhan allweddol o drefniadau’r ysgol. Maent yn sicrhau bod pawb yn deall ac yn hyrwyddo diwylliant diogelu’r ysgol.

Mae’r gweithdrefnau arweinyddiaeth sydd wedi’u sefydlu ar draws yr ysgol yn dechrau cael effaith ar fedrau a lles disgyblion yn ogystal â darpariaeth ar lawr y dosbarth. Mae arweinwyr yn cynllunio’n bwrpasol i fodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, er enghraifft wrth gyflwyno egwyddorion Cwricwlwm i Gymru a gweithredu elfennau allweddol y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn effeithiol. Mae staff yn hybu’r Gymraeg a Chymreictod yn hynod lwyddiannus sy’n cyfrannu’n gadarn at ddatblygu balchder disgyblion at eu hunaniaeth a’u treftadaeth.

Mae blaenoriaethau’r ysgol ar gyfer gwella yn seiliedig ar amrediad da o dystiolaeth uniongyrchol, ac mae dealltwriaeth y staff ohonynt yn gadarn. Mae gweithdrefnau effeithiol wedi’u cyflwyno’n ddiweddar i adolygu cynnydd, nodi meysydd ar gyfer gwella a chymryd camau i’w gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddiad o gynnydd o ddeilliannau’r disgyblion, a chyfleoedd buddiol i graffu ar waith ac arsylwi ar sesiynau dysgu. O ganlyniad, mae arweinwyr a staff yn adnabod eu hysgol yn dda ac yn mynd i’r afael â llawer o’r gwelliannau’n fwriadus.

Cynhelir gweithgareddau i drefnu a gweithredu ar flaenoriaethau gwella cytûn yn effeithiol. Mae gan athrawon gyfrifoldeb am feysydd dysgu a phrofiad penodol. Mae’r cymorthyddion yn aelodau allweddol o dîm yr ysgol ac yn cyfrannu’n uniongyrchol at wella safonau dysgu, lles a medrau cymdeithasol y disgyblion.

Mae aelodau’r corff llywodraethol yn derbyn ac ystyried gwybodaeth gadarn am berfformiad ac effaith gweithdrefnau gwella’r ysgol, ac am gynnydd a lles disgyblion. Maent yn rhannu cyfrifoldebau am agweddau o waith yr ysgol yn gydwybodol. Fodd bynnag, prin yw’r cyfleoedd i aelodau’r corff gymryd rhan weithredol yn y broses hunanwerthuso. Yn gyffredinol, maent yn herio’r ysgol ar faterion addas. gan

gynnwys defnydd o gyllid a staffio yn synhwyrol. Mae hyn yn eu galluogi i gyfrannu'n briodol i lunio gweithdrefnau a strategaethau clir i wella. Maent yn cydweithio ag arweinwyr a disgyblion i sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae gwariant yn cysylltu'n fwriadus ag amcanion a chynlluniau gwella'r ysgol. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn gwneud defnydd effeithiol o gyllideb yr ysgol i gyfoethogi'r cwricwlwm a chodi safonau disgyblion. Maent yn cysylltu'r gwariant yn briodol â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ac yn monitro'r cyllid yn ofalus i sicrhau'r defnydd gorau ohono. Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd synhwyrol a pherthnasol o'r grant datblygu disgyblion.

Mae cyfleoedd gwerthfawr i staff ar bob lefel ddatblygu'n broffesiynol. Maent yn cynnwys cyfleoedd i gael hyfforddiant pwrpasol am ddatblygiadau Cwricwlwm i Gymru ac egwyddorion addysgeg, er enghraifft. Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad yn hyrwyddo dysgu proffesiynol staff yn addas ac yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau a'r ddarpariaeth. Mae gan yr ysgol berthynas weithredol ag Ysgol Dyffryn Conwy ac ysgolion y clwstwr, sy'n cynnwys cyfleoedd i lunio cynlluniau strategol ar gyfer rhannu arfer dda ar gyflwyno egwyddorion Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r berthynas rhwng yr ysgol a'r rhieni yn gadarn. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol â nhw i sicrhau eu bod yn ymwybodol o ddigwyddiadau o ddydd i ddydd. Mae'r rhieni'n falch iawn bod eu plant yn mynychu ysgol mor gefnogol sy'n gwbl ganolog i gymuned wledig Pentrefoelas.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/01/2024